



## Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 2 Mehefin 2026 am 6.00yh  
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan Castell Aberteifi  
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 2 June 2026 at 6.00pm  
virtually and at a Meeting Room, Cadwgan House, Cardigan Castle  
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

**Presennol/**Present—**Y Cynghorwyr/**Councillors: Olwen Davies (**yn y gadair /** in the chair), Siân Maehrlein, David Maehrlein, Nick Bolton, John Adams-Lewis, Catrin Miles, Richard Davies, Richard Jones, Teresa Harries a / and Eleri Maskell (**Clerc/Clerk**).

### **Materion i'w trafod "Mewn Pwyllgor"** **Matters to be discussed "In Committee"**

*Oherwydd natur sensitif y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg,  
a thrafodwyd Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Llanwol Aberteifi  
Cyfoeth Naturiol Cymru mewn pwyllgor.*

**Cynigiwyd a chytunwyd ar yr uchod gan yr holl gynghorwyr.**

*In view of the sensitive nature of the business to be transacted, the press  
were excluded, and the council discussed Natural Resources Wales  
Cardigan Tidal Flood Risk Management Scheme in committee.*

The above was proposed and agreed by all councillors.

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd mwyafrif y cynghorwyr gyflwyno llythyr at yr Aelodau Senedd - Elin Jones, Kerry Ferguson, Anna Nicholl, Susan Claire Archibald, Paul Marr, Paul Windsor Davies a Ben Lake, Aelod Seneddol, yn mynegi eu hanfodlonrwydd â'r cynllun amddiffyn rhag llifogydd arfaethedig.

Cydnabu'r cynghorwyr bwysigrwydd mesurau amddiffyn rhag llifogydd effeithiol a chadarnhau eu cefnogaeth i egwyddor lliniaru llifogydd. Fodd bynnag, codwyd pryderon sylweddol bod nifer o elfennau pwysig a drafodwyd yn ystod ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu blaenorol i'w gweld wedi'u hepgor o'r cynigion dylunio terfynol. Mynegodd yr aelodau'r farn bod llawer o'r nodweddion a fwriadwyd yn wreiddiol i sicrhau bod y cynllun yn ymarferol ac yn weledol gydymdeimladol â'r dref a'r afon wedi'u colli, yn ôl pob golwg o ganlyniad i ystyriaethau cost.

Ymhlith y pryderon allweddol a nodwyd roedd:

- Absenoldeb llwybr troed ar lan yr afon yn cysylltu'r bont newydd ar safle'r hen ysbyty â Chei'r Strand, a ystyriwyd yn gyfleuster pwysig i wella mynediad y cyhoedd i'r afon a'u hymgysylltiad â hi.
- Dileu mynediad y llithrfa yn Gloster Row, sef yr unig bwynt allanfa hygyrch o'r afon ar hyn o bryd i cychod sy'n teithio i lawr yr afon o Gilgerran, gyda goblygiadau posibl i ddefnyddwyr yr afon a gweithgareddau hamdden.

- Y lleoliad arfaethedig ar gyfer mannau eistedd sy'n wynebu'r ffordd yn hytrach na'r afon, a ystyriai cynghorwyr yn groes i'r amcan o greu amgylchedd glan yr afon deniadol.
- Gweledded llai Afon Teifi o fewn dyluniad cyffredinol y cynllun, gyda phryderon bod gofynion peirianeg bellach yn ymddangos yn cael blaenoriaeth dros berthynas hanesyddol a diwylliannol y dref â'r afon.
- Diffyg nodweddion esthetig a thirlunio yn y cynigion terfynol. Pwysleisiodd cynghorwyr, fel nodwedd barhaol o'r dref ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i ymddangosiad y cynllun a phrofiad trigolion ac ymwelwyr.

Codwyd y pryderon hyn gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y broses ymgynghori. Fodd bynnag, o ystyried arwyddocâd y materion sy'n weddill a'r diffyg amlwg o adlewyrchu barn leol yn y cynigion terfynol, penderfynodd cynghorwyr ddod â'r mater i sylw cynrychiolwyr etholedig lleol, gan gynnwys Aelodau'r Senedd ac AS Ben Lake. Bydd y cynghorwyr yn gofyn am eu cefnogaeth i annog Cyfoeth Naturiol Cymru i ailystyried agweddau ar y dyluniad terfynol ac ymgysylltu ymhellach â Chyngor y Dref a rhanddeiliaid lleol eraill cyn i'r cynllun gael ei gwblhau a'i weithredu.

Following discussion, a majority of councillors resolved to submit a letter to Senedd Members Elin Jones, Kerry Ferguson, Anna Nicholl, Susan Archibald, Paul Marr, Paul Davies and Ben Lake Member of Parliament expressing their dissatisfaction with the proposed flood defence scheme.

Councillors acknowledged the importance of effective flood protection measures and reaffirmed their support for the principle of flood alleviation. However, significant concerns were raised that a number of important elements discussed during previous consultation and engagement exercises appear to have been omitted from the final design proposals. Members expressed the view that many of the features originally intended to ensure the scheme was both functional and visually sympathetic to the town and river environment had been lost, seemingly as a consequence of cost considerations.

Key concerns identified included:

- The absence of a riverside footpath linking the new bridge at the former hospital site with Strand Quay, which had been regarded as an important amenity to improve public access to and engagement with the river.
- The removal of slipway access at Gloster Row, currently the only accessible exit point from the river for vessels travelling downstream from Cilgerran, with potential implications for river users and recreational activity.
- The proposed positioning of seating areas facing the roadway rather than the river, which councillors considered contrary to the objective of creating an attractive riverside environment.
- The reduced visibility of the River Teifi within the overall scheme design, with concerns that engineering requirements now appear to take precedence over the town's historic and cultural relationship with the river.
- The lack of aesthetic and landscaping features within the final proposals. Councillors emphasised that, as a permanent feature of the town for future generations, greater consideration should be given to the appearance of the scheme and the experience of residents and visitors.

These concerns had been raised with Natural Resources Wales during the consultation process. However, given the significance of the outstanding issues and the apparent lack of reflection of local views within the final proposals, councillors resolved to bring the matter to the attention of local elected representatives, including Senedd Members and Ben Lake MP. Councillors will be asking for

their support in encouraging Natural Resources Wales to reconsider aspects of the final design and undertake further engagement with the Town Council and other local stakeholders before the scheme is finalised and implemented.

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.45yh.***

There being no further business to discuss, the meeting closed at 8.45pm.

*Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....*